

## CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 5ed o Fedi 2017 / 5<sup>th</sup> September 2017

**Yn bresennol / Present:** Cyng Geraint Davies, Cyng Bill Green, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Daniel Evans, Cyng Emyr Rees, Cyng Alwena Williams, Cyng Eluned Jones, Cyng Hazel Thomas, Cyng Brian Thomas, Cyng Sion Jenkins, Cyng Helen Howells

**Ymddiheiriadau/ Apologise:** Cyng Euros Davies

### **Materion Personol/Personal Matters:**

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng Bill Green yn dilyn anffawd yn ddiweddar. *A speedy and full recovery was extended to Cllr Bill Green following an accident recently.*

1.	<b><u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u></b> Gwnaeth y Cyng Eluned Jones ddatgan diddordeb ym mhwynt 2a a'r Cyng Hazel Thomas ddatgelu buddiant personol ym mhwynt 6a. <i>Cllr Eluned Jones declared a personal interest in point 2a and Cllr Hazel Thomas on point 6a.</i>
2.	<b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf yn gywir gan y Cyng. Hazel Thomas ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Sion Jenkins. <i>The July minutes were proposed as a true record by Cllr Hazel Thomas and seconded by Cllr Sion Jenkins.</i>
3. a.	<b><u>Materion yn Codi – Matters Arising</u></b> Cae Chwarae Cae Sarn Playing Field – Derbyniwyd adroddiad ROSPA a wnaed gan gwmni mae Tai Ceredigion yn eu defnyddio. Roedd nifer o bwyntiau wedi codi o'r archwiliad safle ac mae'n debygol y bydd yn costio rhai cannoedd i wneud y gwaith i gyd. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Paul Arnold i weld a fedrau'r Cyngor Sir helpu ryw ychydig gyda'r costau gan mae dyma'r flwyddyn gyntaf y mae pwyllgor y cae chwarae yn y pentref wedi ei gymryd drosodd. Nid yw Tai Ceredigion yn codi tal am yr archwiliad, maent yn ei roi fel budd cymunedol. Mi fydd y Clerc yn cysylltu gyda Llyr Edwards o Tai Ceredigion i ddiolch iddo. <i>The ROSPA report has been received an undertaken by a company that Tai Ceredigion use. Several points were raised from the site inspection and it is likely that the works needed will cost several hundred pounds. It was agreed that the Clerk would contact Paul Arnold to ask him whether the County Council could help in any way as this was the first year that the playing field committee had taken over. Tai Ceredigion will not charge for the inspection, they have provided it as a community benefit. The Clerk will contact Llyr Edwards from Tai Ceredigion to thank him.</i>

<p>b.</p> <p>c.</p>	<p>Ymgynghoriad Cau Ysgolion – Consultation on School Closures – Ni ddaeth llawer o ymateb o’r posteri yn yr ysgolion, ond dyma rhai syniadau i’w rhoi gerbron y Cyngor Sir: <i>Not much response was received from the posters which were put up in the schools celebration days. But below is a list of ideas to be handed over to the County Council:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Canolfan Addysgu i’r Anabl – Education Centre for the Disabled</li> <li>- Unedau busnesau bach – Small business units</li> <li>- Cartref Hen bobl – Old People’s Home</li> <li>- Swyddfeydd – Offices</li> <li>- Siop Gymunedol – Community Shop</li> <li>- Sefydliad Aren Cymru yn golygu sefydlu Canolfan – Kidney Research Wales are proposing to erect a Wellness Centre</li> <li>- Meithrinfa – Nursery</li> <li>- Canolfan Gymunedol, llogi cyfrifiaduron, cynnal cyrsiau – Community Centre, hire computers, hold training courses etc.</li> </ul> <p>Er nad yw Ysgol Llanwenog ym mherchnogaeth y Cyngor Sir, roedd y Cyngorwyr yn awyddus i wybod beth oedd yn mynd i ddigwydd i’r ysgol a penderfynwyd y byddai’r Clerc yn ysgrifennu at yr Esgobaeth i ddarganfod mwy. <i>Even though Llanwenog School is not within the ownership of the County Council, the Councillors were keen to know what will happen to the school and it was decided that the Clerk would write to the Diocesan to find out more.</i></p> <p>Nododd y Cyng Alwena Williams bod Ciosg Gorsgoch bellach wedi cael ei symud odi yno gan BT. <i>Cllr Alwena Williams informed the Councillors that Gorsgoch Kiosk had now been removed by BT.</i></p>
<p><b>4.</b></p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><b><u>Gohebiaeth – Correspondence</u></b></p> <p>Cyflymder Pentref Gorsgoch Village Speed Limit. Derbyniwyd llythyr wrth Pwyllgor y Neuadd yn esbonio eu bod am weld y cyflymder uchaf yn cael ei ostwng o 40mya i 30mya. Cytunwyd ysgrifennu llythyr i’r Cyngor Sir yn holi iddynt edrych ar y mater. <i>A letter was received from the Hall Committee explaining that they wish to see the traffic speed to be reduced from 40mph to 30mph. It was agreed to write a letter to the County Council to investigate further.</i></p> <p>Hyfforddiant Defibrillator Drefach Training – 29.9.2017 am 6.30yh. Enwau i’r Clerc. 29.9.2017 at 6.30pm – Names to the Clerk.</p> <p>Prosiect rhwng Cered a Theatr Feinfach Joint Project – Nodwyd ai basio ymlaen at y ffermwyr ifainc. Noted and pass it onto the Young Farmers.</p>

<p>ch.</p> <p>d.</p> <p>dd.</p>	<p>NHS Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol / Transforming Clinical Services. Nodwyd / <i>Noted</i></p> <p>Sefydliad Aren Cymru – Kidney Wales. Derbyniwyd nodyn o ddiolch am yr arian nawdd a gwahoddiad i’w cinio dathlu. <i>A note of thanks for the sponsor money was received and an invitation to their celebratory dinner.</i></p> <p>Cyflymder Drefach Speed Limit – Derbyniwyd llythyr wrth Mr Griffiths Foelfechan yn nodi ei gonsyrn gyda’r cyflymder yn newid o 40mya i 30mya cyn y cornel. Nodwyd gan y Cyngorwyr Cymuned mae’r gobaith yw y bydd fan heddlu yn atal pobl rhag torri’r cyflymder. Mi fydd y Clerc yn danfon llythyr o gydnabyddiaeth at Mr Griffiths. <i>A letter had been received from Mr Griffiths Foelfechan noting his concern with regards to the change from a 40mph to a 30mph on the bend. It was noted by the Community Councillors, and it is hoped that the presence of a Police Camera Van will reduce people’s speeds. An acknowledgement letter will be sent to Mr Griffiths.</i></p>
<p><b>5.</b></p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>ch.</p> <p>d.</p> <p>dd.</p>	<p><b><u>Taliadau a Ceisiadau am Arian – Payment and requests</u></b></p> <p>Graham Watson, Ciosg Drefach Kiosk - £70.28</p> <p>Sefydliad Prydeinig y Galon / British Heart Foundation – Dim /None</p> <p>Yswiriant AON Insurance – Nodwyd y newidiadau – Changes Noted,</p> <p>Treiliau’r Clerc Ebrill - Medi / Clerk’s Expenses April –Sep - £129.43</p> <p>Costau Cyfieithu Mawrth – Awst / Translation Costs March – August- £192.84</p> <p>Arwyddion Defibrillator Signs - £25.50</p> <p>Derbynwyd y cyfan a chytunwyd i’w talu. <i>The above payments were received and it was agreed to pay them all.</i></p> <p>Derbyniwyd archwiliad yr archwilwyr allanol a oedd yn hapus gyda’r cyfrifon. Nodwyd bod angen cadw record o bawb sydd yn datgan buddiant personol. Roedd y Cyng Helen Howells yn meddwl hefyd bod angen disgrifiad ar ddechrau pob blwyddyn o swydd y Cyngorwyr Cymuned a’r mudiadau yr oeddent yn rhan ohono. Mi fyddai’r Clerc yn edrych i fewn i’r mater. <i>The external auditors report was received and they were happy with the accounts. It was noted however that a record of who declared a personal interest needs to be kept. Cllr Helen Howells thought that each Community Councillor should also declare their work and what organisations they are involved with at the beginning of each year. The Clerk will investigate further.</i></p>

<b>6.</b>	<b><u>Cynllunio / Planning</u></b>
a.	A170801 – Cornel, Drefach Codi Siediau Gardd a Ffens /Erection of Garden Sheds and fence. Dim Gwrthwynebiad / No objection.
<b>7.</b>	<b><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting</u></b>
a.	Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd o Hydref am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. <i>It was decided to hold the next meeting on the 3<sup>rd</sup> of October at 7.30pm at Drefach Village Hall.</i>
b.	Derbyniwyd cwyn am goed yn tyfu ar hyd heol o Frynteg i Gapel Dewi heibio Llwynffynnon. <i>A complaint was received regarding over growing trees along the road between Brynteg and Capel Dewi past Llwynffynnon.</i>
c.	Helfa Drysor ar Droed 16.9.2017 Cwrtnewydd <i>Walking Treasure Hunt 16.9.2017.</i>
ch.	Chwaraeon Drefach Sports 9.9.2017 2yp
d.	Cwis Eglwys Llanwenog Church Quiz 15.9.2017 7yh
dd.	Derbyniwyd cwyn fod coed a berth yn tyfu wrth cylchfan newydd Highmead a bod gweld ceir yn dod o gyfeiriad Llanybydder yn anodd. <i>A complaint was received that trees and hedges are overgrown on the new Highmead roundabout and that it's difficult to see cars approaching from the Llanybydder direction.</i>

**Arwyddwyd.....**

**Dyddiad.....**

**Adroddiad Cwarterol – Quarterly Budget****1.4.2017-31.3.2018****Incwm / Income**

	<b>Budget</b>	<b>Actual 30.9.2017</b>
Balance bought forward	£5016.21	£5016.21
Precept	£9500	£6333.33
Grants	£0	£4140.00
VAT repayment	£200	£0
Street Lights	£25	£0
Interest	£1	£0.08
Other	£0.00	£631 (Taith dros Fywyd)
<b>Total:</b>	<b>£14742.21</b>	<b>£16120.62</b>

**Gwariant / Expenditure**

	<b>Budget</b>	<b>Actual 30.9.2017</b>
Clerk's Salary	£2400	£600
HMRC	£600	£150
Insurance	£500	£373.98
Expenses	£600	£200.00 (Hyfforddiant Un Llais Cymru)
Translation	£350	
S137	£1000	£200.00
BDO + Audit	£300	£50.00
Chairman's Allowance	£350	
Equipment	£100	
Membership	£150	
Footpath Cutting	£0.00	
War Memorial	£200.00	
Neuadd Gorsgoch	£0.00	
Street Lights	£25.00	
ROSPA Inspection	£50.00	
Llogi Neuadd	£60	
Deddf Hapchwarae	£20	

Kiosk Maintenance	£50	£34.98 (Arwyddion Ciosg Cwrtnewydd), £42.96 (Adnewyddu Ciosgs)
Other	£0.00	£4140.00 (Cae Sarn Grant), £36 (Hwylus costau noson Broadband), £631.00 (Taith dros fywyd)
<b>Total:</b>	<b>£6755.00</b>	<b>£6,458.92</b>